

Cylch Gorchwyl

Ymchwiliad i'r digwyddiadau yn arwain at, a chan gynnwys, trychineb Hillsborough ar 15 Ebrill 1989

Math o Ymchwiliad: Wedi'i Reoli (Allanol)

Awdurdodau Priodol: Heddlu De Swydd Efrog, Heddlu Glannau Merswy

Penderfynwr SAYH: Sarah Green

Crynodeb o ddigwyddiadau

Ar 15 Ebrill 1989, teithiodd mwy na 50,000 o ddynion, menywod a phlant ar drên, coets a char i Stadiwm Hillsborough yn Sheffield, i wylio Rownd Gynderfynol Cwpan FA Lloegr rhwng Clwb Pêl-droed Lerpwl a Chlwb Pêl-droed Nottingham Forest.

Ychydig cyn i'r gic gyntaf ddod am 3pm, aeth nifer sylweddol o gefnogwyr Lerpwl i mewn i'r stadiwm trwy gât allanfa a agorwyd gan swyddogion Heddlu De Swydd Efrog. Aethant ymlaen wedyn i lawr twnnel o dan Stand y Gorllewin a arweiniodd i mewn i ddwy gorlan ganolog a leolwyd y tu ôl i ardal y gôl. Roedd y corlannau eisoes yn llawn neu bron yn llawn. Arweiniodd hyn at orlenwi difrifol, ac o ganlyniad bu farw 97 o fenywod, dynion a phlant, tra anafwyd cannoedd yn rhagor a miloedd lawer yn dioddef trawma.

Cwmpas ac arweinyddiaeth yr ymchwiliad

Bydd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (SAYH) yn rheoli ymchwiliad, yn wreiddiol wedi'i gynnal dan arweiniad y Comisiynydd Heddlu Cynorthwyol ar y pryd Jon Stoddart a nawr Comisiynydd Cynorthwyol yr Heddlu Rob Beckley, i rôl yr heddlu yn y digwyddiadau hyn.

Bydd yr ymchwiliad yn ceisio sefydlu a oes tystiolaeth yn bodoli sy'n awgrymu y gallai unrhyw swyddog heddlu fod wedi cyflawni trosedd. Bydd hyn yn cynnwys troseddau o ddynladdiad, ond hefyd unrhyw drosedd arall a allai fod wedi'i chyflawni.

Bydd hefyd yn darparu adroddiadau y bydd y penderfynwr yn rhoi barn arnynt ynghylch a fyddai unrhyw swyddog heddlu wedi cael achos i'w ateb am gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol, neu dim achos i'w ateb, pe bai'n dal i wasanaethu, ac yn penderfynu os dylai unrhyw faterion gael eu cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron i ystyried a ddylai cyhuddiadau troseddol gael eu dwyn.

Dim ond y rhan o ymchwiliad Operation Resolve i weithredoedd yr heddlu y mae'r cylch gorchwyl hwn yn ei gwmpasu. Mae hyn yn rhan o ymchwiliad ehangach sydd hefyd yn edrych ar sefydliadau ac unigolion eraill.

Bydd yr ymchwiliad hefyd yn ymchwilio i gwynion a gofnodwyd ac a gyfeiriwyd at SAYH y penderfynwyd eu bod yn dod o fewn y cylch gorchwyl isod.

Cylch Gorchwyl (TORs)

Bydd yr ymchwiliad yn cwmpasu:

1. Materion yn ymwneud â'r stadiwm, gan gynnwys unrhyw rôl a chwaraewyd gan yr heddlu yn:

- a) addasrwydd a dewis y stadiwm i gynnal y digwyddiad
- b) cynllunio a gwneud penderfyniadau mewn perthynas â dyluniad y maes, addasiadau a gosodiad terfynol, gan gynnwys lleoliad a chyflwr rhwystrau, ffensys a gatiau o fewn y ffensys
- c) dyluniad a gosodiad y corlannau

2. Cynllunio a pharatoi ar gyfer y gêm gan yr heddlu, gan gynnwys gwneud penderfyniadau sefydliadol ac unigol mewn perthynas â:

- a) adnoddau ar gyfer y digwyddiad
- b) unrhyw rôl a chwaraeir gan yr heddlu wrth ddyrannu ardaloedd o fewn y tir i gefnogwyr y timau ymweld
- c) y trefniadau ar gyfer plismona'r gêm, gan gynnwys trefniadau ar gyfer dyfodiad cefnogwyr a'u rheolaeth y tu allan i'r stadiwm
- d) y trefniadau (neu ddiffyg) ar gyfer monitro union niferoedd y torfeydd a'u diogelwch yn y corlannau ar ben Leppings Lane

3. Gweithredoedd yr heddlu ar 15 Ebrill 1989 cyn y trychineb, gan gynnwys:

- a) gweithredoedd swyddogion heddlu y tu allan i'r maes pêl-droed – gan gynnwys methiant honedig yr heddlu i atal cefnogwyr rhag mynd i mewn i ben Leppings Lane, methiant i atal cefnogwyr rhag cronni y tu allan i gatiau tro Leppings Lane a hidlo cefnogwyr i ffwrdd o'r gatiau tro hynny
- b) y penderfyniad i beidio â gohirio cic gyntaf y gêm
- c) monitro niferoedd torfeydd yn y corlannau – y methiant honedig i atal y corlannau rhag dod yn orlawn a'r methiant honedig i weithredu unwaith y

daeth y corlannau yn orlawn

d) agoriad Gât C

e) y camau gweithredu (neu ddiffyg ohonynt) i gyfeirio cefnogwyr unwaith yr agorwyd Gât C

4. Ymateb yr heddlu i'r drychineb, gan gynnwys:

a) ymateb cynnar yr heddlu i wasgfa'r cefnogwyr ar ben Leppings Lane, gan gynnwys honiadau bod yr heddlu'n araf i ymateb/methu â gweithredu pan edd yn amlwg bod pobl mewn trallod

b) methiannau/gwrthodiadau honedig ar ran yr heddlu i agor gatiau perimedr, a honiadau bod swyddogion wedi gwrthio cefnogwyr yn ôl pan oeddent yn ceisio dringo i ddiogelwch – bydd yr agwedd hon o'r ymchwiliad yn rhoi ystyriaeth benodol i gwynion a wnaed yn erbyn PC Smith a PC Illingworth, yn ogystal ag unrhyw swyddogion heddlu eraill a allai fod wedi bod yn gysylltiedig

c) gorchymyn a rheolaeth yr heddlu o'r drychineb wedi hynny

d) y cyfathrebu rhwng yr heddlu a'r gwasanaethau brys eraill

e) gweithrediad unrhyw ymatebion a drefnwyd o flaen llaw a gweithdrefnau brys i drychinebau o'r fath gan yr heddlu

f) gweithredoedd swyddogion heddlu yn y gampfa, yn arbennig os oedd y driniaeth a'r cwestiynu i berthnasau yn briodol. Gweithredoedd swyddogion heddlu yn y Clwb Bechgyn, ac unrhyw gwynion eraill am driniaeth ffrindiau neu berthnasau ar y diwrnod. Bydd y paramedrau amser o 3.06pm ar 15 Ebrill 1989 i'r amser pan gaewyd yr olaf o'r cyfleusterau a ddangosir isod – bydd hyn yn cynnwys digwyddiadau rhwng stopio'r gêm a chwblhau trefniadau i gynorthwyo teuluoedd yn y lleoliadau canlynol:¹

Y gampfa, Ysbyty Cyffredinol y Gogledd, Ysbyty Brenhinol Hallamshire, Canolfan Ddamweiniau Ecclesfield, Canolfan Ddamweiniau Glannau Merswy, Heol Hammerton Gorsaf Heddlu, Clwb Bechgyn, Neuadd yr Eglwys, Meade House, Canolfan Kelvin, Festri Burngreave, a'r Ganolfan Feddygol-gyfreithiol

g) os oedd unrhyw heddwes wedi camddefnydio'i awdurdod, wedi defnyddio gormod o rym neu'n anwar yn ystod y drychineb a oedd yn datblygu

¹ Nodwch, ar 22 Mawrth 2018, gofynnodd yr Uwch Swyddog Ymchwilio ar gyfer Operation Resolve mewn nodyn diweddar i Fwrdd Ymchwilio Hillsborough i'r paragraff 4f gwreiddiol gael ei ddileu o'r Cylch Gorchwyl a Reolir ac i'r Cylch Gorchwyl gwreiddiol 4g (4 f nawr) gael ei ddiwygio fel y nodir uchod – cytunwyd ar hyn gan y Bwrdd.

SWYDDOGOL

Cafodd y cylch gorchwyl hwn, a fydd yn cael ei adolygu'n barhaus i ystyried unrhyw dystiolaeth o droseddau honedig ychwanegol yn gysylltiedig â thrychineb Hillsborough, ei adolygu a'i gymeradwyo gan Sarah Green ar 20 Mehefin 2022.